
| *Rhif:* ***28*** | *Enw'r Ardal o Gymeriad Morwedd:* | **Y Môr agored i'r Gorllewin** |
|---|---|---|




**ACM28:Y Môr agored i'r Gorllewin**



*Golwg o gydran ogleddol yr ardal o Garn Llidi gyda SCA13 yn y tir canol*



*Golwg o'r ardal yn y Môr i'r dwyrain o Sgomer*

| **Disgrifiad Cryno** |
|---|
| Mae'r ardal forwed fawr hon wedi'i lleoli i'r gorllewin o Ben-caer ac yn ymestyn i'r de, i'r gorllewin i Bentir y Santes Ann. Mae i'r ardal wely môr o dywod graeanaidd, 30-100m o ddyfnder o don straen isel, yn agored i wyntoedd o'r de-orllewin. Mae'n fôr agored a ddefnyddir gan longau masnachol, fferïau ac ychydig o gychod criwsio hamdden. |
| **Nodweddion Allweddol** |
| • Ardal helaeth iawn o fôr, 30-100m o ddyfnder ar wely môr o dywod graeanaidd o don straen isel.<br>• Mae nifer o longddrylliadau yn yr ardal.<br>• Mae rhan o'r ardal o fewn Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) Forol Sir Benfro.<br>• Defnyddir yr ardal at ddefnydd pysgota a gan fferïau a llongau masnachol.<br>• Byddai tir yn weladwy i'r dwyrain ac yn ffurfio rhan o'r olygfa nas difethwyd oddiar yr arfordir gorllewinol, gan gynnwys oddiar Llwybr Arfordir Sir Benfro.<br>• Ardal o fôr agored o gymeriad morol syml, cyson ac unedig nas difethwyd ar raddfa eang iawn, gydag ymdeimlad arwyddocaol o fod yn agored, yn unig a noeth.<br>• Mae nodweddion yr ardal yn cael eu pennu bron yn gyfangwbl gan rymoedd naturiol dŵr, drwy ymchwydd y môr a'r tonnau, a'r gwynt. |
| **Dylanwadau ffisegol** |
| Dŵr o ddyfnder cymhedrol neu ddwfn (30-100m), gwely môr o raean tywodlyd i raean, yn gogwyddo'n raddol (<1$^{o}$) i'r gorllewin, gyda'r moroedd yn agored i don straen isel. I'r gorllewin o'r bar graean tywodlyd bas iawn sef SCA 14 (ID27, 28), mae i raean gwely'r môr dafod garw o glymfaen (ID52). Mae gwaddodion gwely'r môr yn gorchuddio creigwely Paleosöig Isaf ac Uchaf yn streicio'n ddwyreiniol-orllewinol fel y'i dadorchuddiwyd ar hyd yr arfordir, ac yn eu lle ar y môr tua'r gogledd-orllewin ceir creigwely ifancach Mesosöig i Gainosöig yn streicio i'r gogledd-ddwyrain /de-orllewin. Mae'r cerhyntau llanwol yn llifo'n gyfochrog â'r morlin.<br><br>Mae'r rhan ddeheuol o'r ardal yn rhan o Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) Forol Sir Benfro. |
| **Dylanwadau diwylliannol** |
| Yn hanesyddol, o gyn-hanes hyd at y presennol, mae'r ardal hon wedi bod yn rhan o'r llwybrau masnach Gorllewinol. Mae'r prif gysylltiadau diwylliannol wedi bod gyda hanes hir Cymru o fasnach a mentro i'r môr. Mae unrhyw longddrylliadau yn rhai eitha dwfn ac mewn nifer o achosion, nid yw eu lleoliad yn sicr. Serch hynny, maent yn cynnwys nifer o longau a suddwyd yn y dyfroedd mwy agored gan ymosodiad y gelyn, yn wahanol i'r rhai a ddinistriwyd yn agosach at y lan gan dywydd garw neu amodau môr anodd. Ymysg y rhain gellir sôn am yr Emily Millington, a suddwyd gan llong danfor Almaenig, HMS Arbutus, slŵp dosbarth blodyn yn dyddio i 1917, a'r Boston City, y ddwy wedi'i torpidio gan u-longau Almaenig, dwy long ryddid adeg yr Ail Rhyfel Byd, sef y Dan Beard a'r Jonas Lie, a'r Kingstown, a ymoswyd arnynt gan awyrennau Almaenig yn 1941. Colled mwy diweddar yw'r Concha yn 1958, llong a gofrestrwyd yn Costa Rica.<br><br>Mae llwybrau'r fferïau rhwng Abergwaun a Doc Penfro i Rosslare yn croesi'r ardal. Mae llwybrau criwsio hamdden cychod hwylio hefyd yn tramwyo'r dyfroedd hyn, yn cysylltu De Cymru gyda Gogledd Cymru, a llefydd megis Caergybi ac Iwerddon. Gyda'r lan mae llwybr criwsio arfordirol sy'n gweld defnydd trwm, ac yn cysylltu Aberdaugleddau a phwyntiau i'r dwyrain i Fae Aberteifi.<br><br>Mae'r ardal hon o ddŵr hefyd yn cael ei chroesi gan gychod yn cynnal teithiau gwerthfawrogi bywyd, a chychod plymio sy'n hwylio o Aberdaugleddau a Phorthstinan i ymweld ag ynys Gwales a'r Smalls.<br><br>Mae pysgota yn yr ardal yn cynnwys rhwydi gosod gyda'r lan, a photio gwichiaid moch, |

cimychiaid a chrancod, lein ddriftio i'r de, gyda'r potensial am dreillio estyllod rhwydi ysgafn gyda'r lan, a threillio trawst a 'hopiwr creigiau' ar y môr.

Rhwng y Smalls ac ynys Sgomer mae'n a ardal o berygl. Yn y gorffennol rhoddwyd trwydded Rownd 24 i'r ardal ar gyfer olew a nwy a gellir gwneud ceisiadau yn y dyfodol. Mae'n rhan o faes tanio ac ardal ymarfer milwrol Aberporth i'r gogledd orllewin ac o faes tanio ac ardal ymarfer milwrol Castellmartin i'r de. Yn ogystal, mae 'na ardal ddympio ffrwydron - nas defnyddir bellach - i'r de.

**Ansoddau esthedig, canfyddiadol a phrofiadol**

Ni ymwelwyd â'r ardal hon. Mae'r ardal rhwng 1km a tua 22km oddiar yr arfordir. Y disgwyl yw y byddai ystod o ddylanwadau ar yr arfordir. Byddai bryniau uwch megis Carn Llidi a chlogwyni yn amlwg fel elfennau cryfion o'r tirlun, yn llywodraethu ar yr olygfa mewn mannau ond yn lleihau i elfennau bach neu linell denau iawn ar y gorwel ac yn weladwy dim ond mewn gweledydd da. Yn y mwyafrif o'r ardal byddai dyn yn cael yr argraff o fôr agored ymhell o ddylanwad y tir, yn hytrach na'r cysylltiad gweledol hyn.

Mae i'r ardal gymeriad syml, cyson ac unedig ar raddfa eang iawn, gydag ymdeimlad arwyddocaol o fod yn agored, yn unig a noeth. Mae ei ansoddau yn cael eu pennu bron yn gyfangwbl gan rymoedd naturiol dŵr, drwy ymchwydd y môr a'r tonnau a'r gwynt. Mae'r ardal yn agored i wyntoedd de-orllewinol ac ar adeg tywydd garw mae'r môr yn debyg o deimlo'n fygythiol. Mae na debygolrwydd cryf o dawelwch ac ymdeimlad o wylltineb a phellenigrwydd yn y môr agored hwn.

Ymhellach o'r arfordir bydd y nifer o longau hamdden yn gyfyngedig, ond bydd ambell i gipolwg o fferi a llongau masnach yn defnyddio'r llwybrau môr neu wedi'i hangori a gwmpas Bae Sain Ffraid.

**Buddion a gwasanaethau diwylliannol**

Mae'r ardal yn cyfrannu at wasnaethau hamdden ac adloniant ar ffurf adloniant morwrol, ar ffurf ardal forwrol o fôr nas difethwyd sy'n weladwy o arfordiroeddd sensitif y Parc Cenedlaethol, ac at wasanaethau diwylliannol ac ysbrydol o ran yr ymdeimlad o wylltineb ac bod yn un â byd natur.

## Grymoedd am newid

### Crynodeb

Mae'r grymoedd sy'n peri newid yn gyfyngedig yn y mannau morol dyfnach.

Mae'n debyg y bydd y dyfroedd o gwmpas Ynys Sgomer yn cael eu dynodi'n un o'r Parthau Cadwraeth Morol newydd - mae'r lefel o ddiogelwch yn dal i gael ei drafod. Mae'n ddigon posib y bydd y dyfroedd hyn yn ymestyn i'r ardal hon.

Gallai presenoldeb tanceri gael effeithiau andwyol a allai gynyddu wrth bod y traffig yn cynyddu e.e. LNG.

Gall caniatáu trwyddedau olew a nwy arwain at bwysau i ddatblygu yn y dyfodol.

| | Grymoedd Allweddol am newid | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Nodweddion Arbennig | Prosesau naturiol/newid yn yr hinsawdd | Pwysedd ymwelwyr | Defnydd morol - masnachol a physgota | Egni ar y môr | Pwysedd datblygiad | Newid mewn rheolaeth tir | Defnydd gan y Weinyddiaeth Amddiffyn |
| Ysblander yr arfordir | | | | | | | |
| Ynysoedd | | | | | | | |
| Amrywiaeth yn y tirlun | | | | | | | |
| Pellter, llonyddwch ac Ardal Wyllt | | | | | | | |
| Daeareg Amrywiol | | | | | | | |
| Cyfoeth o Gynefinoedd a Bioamrywiaeth | | | | | | | |
| Cyfoeth o Archaeoleg | | | | | | | |
| Cymeriad Nodweddiadol yr Aneddiad | | | | | | | |
| Treftadaeth Ddiwylliannol | | | | | | | |
| Mynediad at y Parc | | | | | | | |
| Lle i Anadlu | | | | | | | |
| **Allwedd** | | Newid i'r ardal sy'n effeithio ar y nodwedd arbennig ddewisol | | | | | |

### Sensitifeddau Allweddol

Ardal o fôr agored o gymeriad morol syml, cyson ac unedig nas difethwyd ar raddfa eang iawn, gydag ymdeimlad arwyddocaol o fod yn agored, yn unig ac o bellenigrwydd.

Yn ffurfio rhan o'r olygfa nas difethwyd o'r arfordir orllewinol gyda Llwybr Arfordir Sir Benfro fel derbynnydd sensitif.

Mae rhan yn ACA Forol Sir Benfro.

Presenoldeb fferïau a llongau masnachol.